Diolch am ofyn i mi ymateb i dystiolaeth yr Arglwydd Bellamy, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Senedd Cymru.

Mae'n werthfawr fod yr Arglwydd Bellamy wedi dod i roi tystiolaeth, er mwyn cychwyn deialog gyhoeddus fawr ei hangen rhwng Caerdydd a Llundain ar fater cyfiawnder. Mae'n werthfawr hefyd nodi tôn sydd ar y cyfan yn parchu ac yn cydnabod yr angen am gydweithio rhwng y ddwy lywodraeth a bod ystyriaethau penodol yn Nghymru sy'n gofyn am driniaeth benodol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Serch hynny, nid yw ei ymateb i broblem yr 'ymyl ysgythrog' yn taro deuddeg. Nid oes modd cymharu anawsterau gweithio ar draws (1) ar y naill law y ffin rhwng adrannau gweithredol Llywodraeth ganolog a rhai Llywodraeth ddatganoledig, ac (2) ar y llall y ffin rhwng gwahanol adrannau gweithredol Llywodraeth ganolog yn unig. Yn y pen draw, mae adrannau Llywodraeth ganolog oll yn atebol i'r un awdurdod ac o dan ei reolaeth weithredol yn y pen draw – sef y Prif Weinidog a'r Cabinet yn Llundain - ac mae ganddynt yr un grym a'r un *locus standi* â'i gilydd. Mae hynny'n galluogi cydlynu polisi a gweithredu ac hefyd sicrhau bod unrhyw anghydfodau yn medru cael eu datrys yn ddi-ffwdan. Ar y llaw arall, mae adrannau datganoledig yn atebol i Brif Weinidog Cymru a'r Cabinet yng Nghymru ac o dan eu rheolaeth weithredol yn y pen draw. Nid oes ganddynt unrhyw rym yn ganolog ac eithrio i geisio dylanwadu a dwyn perswâd. Y diffyg cymesuredd hwn o ran grym yw un o brif ffynonellau'r anawsterau ymarferol y mae'r ymyl ysgythrog yn eu creu. Ar ben hynny wrth gwrs, y y pen draw mae atebolrwydd democrataidd Llywodraeth Llundain i Senedd y Deyrnas Gyfunol tra bo atebolrwydd Llywodraeth Caerdydd i Senedd Cymru.

Mae'r datganiad canlynol gan yr is-ysgrifennydd gwladol am un o argymhellion Comisiwn Thomas efallai yn dangos anhawster yr anghymesuredd grym:

*There is one [recommendation] that I think is unlikely to proceed, which is a proposal to change the age of criminal responsibility for a child, where the Government's view is that we should have one age across England and Wales.* (para 52 y trawsgrifiad)

Gwnaeth Adroddiad Comisiwn Thomas ei argymhelliad (para 4.195) yn nghyd-destun trafodaeth resymedig ar sail tystiolaeth o sut yr oedd polisi a gweithredu Cymreig yn pwysleisio'r angen i fabwysiadu dull ataliol o ddelio â throseddu gan bobl ifanc. Pe bai cyfiawnder wedi ei ddatganoli i Gymru, yna byddai modd i Senedd Cymru newid oedran cyfrifoldeb troseddol, ac hefyd gyflwyno dulliau amgen o ddelio gyda phobl ifanc fel sydd yn yr Alban. Nid oedd ymgais gan yr is-ysgrifennydd gwladol i gynnig rhesymau yn erbyn newid o'r fath (boed yng Nghymru neu yng Nghymru a Lloegr) na chwaith ymgais i ddelio gyda'r argymhelliad yng nghyd-destun polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Yn hytrach, yr hyn gafwyd oedd ymateb *ex cathedra* yr oedd ei sefyllfa o rym yn galluogi iddo ei wneud.


Emyr Lewis

Adran y Gyfraith a Throseddeg

Prifysgol Aberystwyth